Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 27 Chwefror 2010 yng Nglantwymyn

2010.01 Addoli Agoriadol a Chroeso

Mae'n bleser cael croesawu 33 o Gyfeillion yma heddiw, fel a restrir ar y daflen bresenoldeb. Mae'r Cyfeillion canlynol wedi'u penodi gan eu cyfarfodydd ardal i fynychu:

- Gogledd Cymru: Del Yale, Catherine James, Frank Brown
- Canolbarth Cymru: Susan Greaves
- De Cymru: Malcolm Thomas (ataliwyd); bydd Lynn Moseley yn adrodd fel bo angen.
- Gororau'r De: Joyce Gee

Penodwyd Diana Morrison Smith ac Alan Rowland yn henaduriaid.

Rydym wedi derbyn gan Gyfarfod Ardal Gogledd Cymru Dystiolaeth i Ras Duw fel a ddangosir ym mywyd David Robson, a ddarllenwyd a'i chymeradwyo yn ystod ein haddoli agoriadol.

Rydym yn nodi bod Cyfarfod Ardal De Cymru mewn cysylltiad â Chyfarfod Ardal Efrog ynglŷn â pharatoi tystiolaeth i ras Duw fel a ddangosir ym mywyd Harry Crann, un o gyn-glercod Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.

Trwy'r weithdrefn rhwng cyfarfodydd, mae Julia Aspden wedi'i phenodi yn gyd-glerc. Rydym yn diolch i Catherine James a Lynn Moseley am eu gwasanaeth wrth y bwrdd fel cyd-glerc a chlerc cynorthwyol.

2010.02 *Calon* a *The Friend*

Rydym yn penodi Catherine James i adrodd ar y cyfarfod hwn i *The Friend* ac i *Calon*. Mae Julia Aspden wedi cysylltu â *The Friend*; mae'r golygydd wedi dweud y byddai'n croesawu adroddiad ac wedi rhoi rhai canllawiau defnyddiol.

2010.03 Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf

Academi Heddwch Cymru: rydym wedi derbyn cofnod gan Gwrdd Bangor sy'n gofyn am ddarlun cliriach o'r hyn a gynigir. Mae Jane Harries wedi anfon gwybodaeth am gyfres o gyfarfodydd ledled Cymru yn gynt yr wythnos hon i hyrwyddo'r cysyniad o Academi Heddwch i Gymru.

2010.04 Quaker Life

(i) **Cyngor Cynrychiadol** (mae cofnod 09.31 yn cyfeirio): mae Liz Butler wedi darparu a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar y Cyngor a gynhaliwyd 23-25 Hydref 2009.

(ii) **Rhwydwaith *Quaker Life*:** Yn sgil digwyddiad Rhwydwaith *Quaker Life* yn ddiweddar, mae grŵp wedi'i sefydlu ar gyfer aelodau'r Rhwydwaith yng Nghymru i'w cefnogi ei gilydd. Julia Aspden sy'n cydgysylltu'r grŵp hwn.

2010.05 Ymestyn Allan

(i) **Eisteddfod:** mae Gill Branch a Hilary Beynon (Gororau'r De) a Mary Cook a Val Evans (De Cymru) wedi'u penodi i weithredu fel cydgysylltwyr ar gyfer yr Eisteddfod yng Nglynebwy. Mae Deborah Rowlands a Catherine James wedi llunio rhai canllawiau.

(ii) **Y Gynhadledd Ymestyn Allan Fawr (*Big Outreach*): 22-24 Ionawr 2010.** Mae Alan Thomas wedi anfon adroddiad atom ar y Gynhadledd Ymestyn Allan Fawr. Bu Jules Montgomery, ein swyddog gweinyddol, hefyd yn mynychu'r gynhadledd ac mae wedi rhannu ychydig o'i hargraffiadau. Ar y dechrau, roedd Jules yn teimlo'n anesmwyth ynghylch y cysyniad o ymestyn allan. Dechreuodd hi sylweddoli'r anhawster o egluro ei Chrynwriaeth i bobl eraill a phwysigrwydd ddod o hyd i bwrpas cyffredin. Rydym i gyd ar siwrnai ysbrydol, ond mewn gwahanol leoedd ar y siwrnai honno. Mae Jules am allu egluro beth yw'r Crynwyr a'n bod yn ddewis i bobl sy'n chwilio am fangre ysbrydol. Mae'n bwysig canolbwyntio ar ein pwrpas cyffredin ac nid ar ein gwahaniaethau. Gall byw ein tystiolaethau, a defnyddio *Cynghorion a Holiadau*, ddarparu canolbwynt. Mae Alan a Jules yn awyddus i drosglwyddo'r hyn a ddysgwyd ganddynt yn y gynhadledd i grŵp ehangach o Gyfeillion sy'n awyddus i gymryd rhan mewn Ymestyn Allan ac maent yn awgrymu sesiwn Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, cyfarfod dydd neu gynulliad dros benwythnos i ganolbwyntio ar y pwnc. Rydym yn gofyn i'r clercod fynd â hyn rhagddo gydag Alan a Jules ac adrodd wrth ein cyfarfod nesaf.

(iii) Adolygiad o adnoddau ymestyn allan. Penodwyd y grŵp a awgrymwyd yng nghofnod 09.30(i) gan y gweithdrefnau rhwng cyfarfodydd: Alan Thomas (DC) a Catherine James (GC) yn gweithio â'r Pwyllgor Cyhoeddiadau a'r Grŵp Ymgynghori newydd ar y Gymraeg. Mae'r grŵp wedi derbyn arweiniad manwl ar eu tasg gan Deborah Rowlands. Bu'r grŵp yn cyfarfod 18 Chwefror i adolygu adnoddau cyfredol a dechrau ar yr adolygiad.

Bydd y grŵp yn cysylltu ag adran Ymestyn Allan Cyfarfod Blynyddol Prydain ynglŷn ag adolygu'r ystod o daflenni safonol, i sicrhau bod cymaint ag sy'n bosibl ar gael yn y ddwy iaith, a bod o leiaf ddau o'r posteri Ymestyn Allan newydd ar gael yn y ddwy iaith mewn fformat A3.

Mae'r grŵp yn awgrymu bod Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru'n prynu rhai stondinau ysgafn newydd y gellir eu defnyddio i ddangos y deunydd arddangos presennol – rydym yn cytuno â'r cais hwn gan ofyn i'n swyddog gweinyddol ymchwilio i'r gost ac adrodd yn ôl wrth y cyfarfod nesaf.
Mae'r grŵp yn disgwyl adrodd yn llawnach wrth ein cyfarfod ym mis Hydref, yn dilyn Wythnos Ymestyn Allan 2010.

2010.06 Trefniadau ar gyfer 2010 a thu hwnt

Adroddiad gan y Pwyllgor Trefniadau. Mae Liza Brown wedi cyflwyno cynlluniau ar gyfer ein cyfarfodydd ym mis Mehefin a mis Hydref, gan ddefnyddio thema cynaliadwyedd ac adnoddau sy'n lleihau. Mae hefyd wedi rhoi manylion i ni am yr Encilfa, i'w chynnal yn Aberystwyth 17 Ebrill: *Roots, Shoots and Fruits*, i'w harwain gan Lizz Roe; mae ffurflenni cais ar gael i Gyfeillion fynd â nhw.
Ein cyfarfod nesaf (26 Mehefin yn Nhrefaldwyn) fydd '*Walking the Talk*' - beth y gallwn ei wneud yn ymarferol i fyw'n gynaliadwy. Bydd y cyfarfod 30 Hydref yn Aberystwyth ar Ysgogi Newid - a allwn gyrraedd y rhai na fyddai rhywun yn disgwyl eu gweld yno?
Mae Lizz Roe wedi siarad am y cynlluniau ar gyfer yr Encilfa, gan ein cyflwyno i'r agweddau ysbrydol ar ein hymateb i newid yn yr hinsawdd. Bu'n cysylltu hyn â Gras Duw fel a ddangoswyd yn y Dystiolaeth a ddarllenwyd yn gynharach. Sut y mae Gras Duw yn ei hamlygu'i hun yn ein bywydau? Sut olwg sydd ar gymuned wirioneddol dda? Sut y gallwn ei chynnal?

2010.07 Hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer rolau'r Crynwyr.

Mae Woodbrooke wedi ymgynghori â ni ynglŷn ar y ffordd fwyaf buddiol o hyfforddi Henaduriaid a Goruchwylwyr yng Nghymru. Rydym wedi ystyried y cwestiynau canlynol a anfonwyd atom gan Woodbrooke:

I. A yw cyrsiau hyfforddi undydd ar henaduriaeth a goruchwyliaeth yn diwallu anghenion y Cyfeillion yng Nghymru?

II. A yw Cyfeillion o Gymru'n gallu mynychu cyrsiau penwythnos yn Woodbrooke ar henaduriaeth a goruchwyliaeth?

III. A fyddai'n fwy buddiol pe bai Woodbrooke yn trefnu sesiwn hyfforddi ar henaduriaeth a goruchwyliaeth yn rhan o Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru neu ddigwyddiadau rhanbarthol eraill yng Nghymru megis cyfarfodydd ardal?

IV. A fyddai'n well gennych gael hyfforddiant ar wahân ar henaduriaeth a goruchwyliaeth neu a yw'n iawn cynnwys y ddwy elfen mewn un cwrs?

V. Pa mor bell y mae Cyfeillion yn fodlon teithio i gael hyfforddiant mewn henaduriaeth a goruchwyliaeth?

VI. Ble y mae'r lleoliadau mwyaf cyfleus i Gyfeillion yng Nghymru gwrdd â'i gilydd?

VII. Mewn byd delfrydol, pa hyfforddiant a fyddai'n cael ei ddarparu ar gyfer Cyfeillion sy'n gweithio ar henaduriaeth a goruchwyliaeth yng Nghymru?

Rydym yn cytuno i anfon y cofnod hwn i gyfarfodydd ardal a lleol yng Nghymru a dychwelyd at hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

2010.08 Materion Ariannol

(i) **Adroddiad blynyddol a chyfrifon** Rydym yn derbyn a chymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Catherine James a gyflwynodd yr adroddiad blynyddol a Jon Bell y cyfrifon.

(ii) **Polisi Ariannol** Mae'r gweithdrefnau a geir yn y polisi ariannol (a gytunwyd yn 2008) wedi'u hystyried. Maent wedi cael eu dilyn yn ofalus gan y rheini sy'n gyfrifol am ein cyllid. Rydym yn nodi mai Ymddiriedolwyr Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru fydd â'r cyfrifoldeb am y polisi hwn o hyn allan.

(iii) **Penodi Trysorydd Cynorthwyol**. Y llynedd awgrymodd Jon Bell ein bod yn penodi trysorydd cynorthwyol. Rydym yn gofyn i'r Ymddiriedolwyr ystyried a fyddai'r rôl hon yn ddefnyddiol.

(iv) **Cyllideb**. Mae Jon Bell wedi cyflwyno cyllideb i ni ar gyfer 2010. Byddwn yn gofyn am gyfraniadau o gyfarfodydd ardal ar yr un gyfradd â'r llynedd. Rydym yn nodi bod gennym swm eithaf sylweddol ar hyn o bryd yn ein cronfeydd wrth gefn. Ar hyn o bryd mae'r grant gan Gyfarfod Blynyddol Prydain tuag at gymorth gweinyddol i'r Cyfeillion yng Nghymru'n cael ei adolygu bob blwyddyn; felly mae angen i ni gadw digon o arian yn y cyfrif i gynnal cyflogi ein swyddog gweinyddol nes i ni allu dod o hyd i ffynonellau incwm eraill neu wneud trefniadau eraill. Rydym yn nodi yng nghofnod 08.08 i ni gytuno i ychwanegu unrhyw enillion o Gronfa'r Prosiect Lletygarwch Ysbrydol i'r gronfa ddynodedig i ddeunyddiau printiedig. Rydym yn nodi bod y gronfa hon ar gael ar gyfer cyhoeddiadau newydd y cytunir arnynt gan y cyfarfod. Rydym yn nodi bod gennym arian yn y cyfrif ar gyfer prosiectau newydd, yn enwedig y gymynrodd gan John Roberts. A allwn fod yn fwy arloesol a chreadigol wrth gyflawni ein dibenion?

(v) **Diolch**. Rydym yn diolch i Jon Bell am ei wasanaeth dros y tair blynedd diwethaf.

(vi) **Llofnodwyr sieciau**: rydym yn awdurdodi unrhyw ddwy o Julia Aspden, Lynn Moseley a Deborah Rowlands i lofnodi sieciau ar ran Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.

2010.09 Dogfen Lywodraethu a Chylch Gorchwyl i Ymddiriedolwyr

Cafodd y Ddogfen Lywodraethu a'r Cylch Gorchwyl eu cylchredeg i Gyfeillion cyn y cyfarfod am sylwadau ac maent wedi bod ar gael yn y cyfarfod hwn. Rydym yn cytuno i fabwysiadu'r ddwy ddogfen.

2010.10 Memorandwm Dealltwriaeth/Cofnod Cytundeb â Chyfarfodydd Ardal yng Nghymru a'r Gororau

Mae Cyfarfod Ardal Gogledd Cymru am drafod y mater hwn yn eu cyfarfod ym mis Mawrth; bydd Cyfarfod Ardal Canolbarth Cymru'n ei drafod ym mis Ebrill; mae Cyfarfod Ardal Gororau'r De wedi derbyn y ddogfen a byddant yn dychwelyd ati yn eu cyfarfod ym mis Mai.
Trafododd Cyfarfod Ardal De Cymru'r ddogfen 13.2.2010 ac maent wedi anfon eu cofnod.

Rydym yn gofyn i'r clercod gysylltu â chyfarfodydd ardal eraill y Gororau i gytuno ar femoranda â nhw ac adrodd erbyn ein cyfarfod ym mis Hydref.

2010.11 Rhestr Gysylltiadau a Diogelu Data

(i) **Diogelu Data.** Nes i ni gofrestru â'r Comisiwn Elusennau ar wahân, mae Polisi Diogelu Data Cyfarfod Blynyddol Prydain yn ein cynnwys ac rydym yn ardystio cydymffurfiaeth i Swyddfa'r Clerc Cofnodi bob blwyddyn. Ymgymerir â chasglu gwybodaeth gan aelodau a mynychwyr gan y cyfarfodydd ardal dan sylw, ond dylai pawb sy'n defnyddio gwybodaeth bersonol aelodau ar gyfer gwaith Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru fod yn ymwybodol o bolisi Cyfarfod Blynyddol Prydain sydd ar gael i'w lawrlwytho ar www.quaker.org.uk <http://www.quaker.org.uk> neu gan swyddog gweinyddol Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.

(ii) **Rhestr Gysylltiadau**. Mae Cyfarfodydd Ardal Canolbarth Cymru a De Cymru wedi mynegi eu bod yn dymuno cael llyfr aelodau i Gymru gyfan. Rydym yn cytuno i ofyn i'n swyddog gweinyddol ymchwilio i sut i wneud hyn, trwy ymgynghori â'r cyfarfodydd ardal perthnasol trwy eu clercod cynorthwyol (aelodaeth) ac Adran Gyfathrebu'r Crynwyr (mae cofnod 07.39 yn cyfeirio)

2010.12 Enwebiadau a Phenodiadau

(i) **Penodiadau rhwng cyfarfodydd.** Penodwyd/rhyddhawyd y canlynol rhwng cyfarfodydd:

Cyd-glerc tan 31.12.2012 - Julia Aspden (GC)

Trysorydd tan 31.12.2012 – Lynn Moseley (DC)

Grŵp Ymgynghori ar y Gymraeg tan 31.12.2012 :

Huw Meredydd Owen (GC)

Ymddiriedolwr tan 31.12.2012 – Frank Brown (GC)

Penodwyd Gethin Evans yn ymddiriedolwr yn ein cyfarfod diwethaf (cofnod 09.36(ii)) ac rydym yn cytuno y bydd y gwasanaethu tan 31.12.2011

Rydym yn gofyn i Gethin alaw cyfarfod cyntaf yr ymddiriedolwyr; penodir clerc i'r ymddiriedolwyr yn ein cyfarfod nesaf.

Pwyllgor Trefniadau tan 31.12.2011 – Mary Cook (DC)

Grŵp Adnoddau Ymestyn Allan tan 31.12.2010:

Catherine James (GC)
Alan Thomas (DC) (bu Alan hefyd yn mynychu'r Gynhadledd Ymestyn Allan Fawr ar ein rhan)

Wrth ymgymryd â rôl y trysorydd, mae Lynn Moseley wedi gofyn i gael ei rhyddhau o'i gwasanaeth fel clerc cynorthwyol.

(ii) Enwebiadau a ddygwyd gerbron yn y cyfarfod hwn:

Cynullydd y Pwyllgor Trefniadau tan 26.06.2010 – Liza Brown

Grŵp Ymgynghori ar y Gymraeg tan 31.12.2012:

Awel Jones (GC)
Rhian Parry (GC)

Ymddiriedolwr tan 31.12.2010 Del Yale (GC)

A'r enwau uchod yn dderbyniol, a'r Cyfeillion hynny'n fodlon gwasanaethu, fe'u penodir.

Rydym yn cytuno ar gais Mary Cook i'w rhyddhau o'i gwasanaeth fel golygydd cynorthwyol *Calon.* Rydym yn gofyn i olygydd cyfredol *Calon* drafod angen penodi golygydd cynorthwyol â'r Pwyllgor Enwebiadau.

(iii) **Y Pwyllgor Enwebiadau Canolog**. Mae Jane Harries, o Gyfarfod Ardal De Cymru, sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Enwebiadau Canolog, wedi mynegi ei phryder am brinder Cyfeillion yng Nghymru sydd wedi cwblhau ffurflen wybodaeth felen am wasanaethu. Mae'r ffurflenni hyn wedi bod ar gael i Gyfeillion heddiw. Rydym yn annog Cyfeillion lleol i'w llenwi, fel y bydd gan y Pwyllgor Enwebiadau Canolog wybodaeth am Gyfeillion yng Nghymru a allai wasanaethu ar Bwyllgorau Cyfarfod Blynyddol Prydain.

2010.13 Cyfarfod Dioddefiadau

Ni allai'r un o'n cynrychiolwyr yn y Cyfarfod Dioddefiadau fod yn bresennol heddiw ond rydym wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig. Rydym wedi cael ein hatgoffa y gallwn fod yn rhagweithiol wrth gyfathrebu â'r Cyfarfod Dioddefiadau. Dywedwyd wrthym am y cynlluniau ar gyfer yr ychydig Gyfarfodydd Dioddefiadau nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyfathrebu ar yr adeg briodol beth y mae Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru'n ei wneud yng Nghymru ar ran Cyfarfod Blynyddol Prydain.

Rydym wedi derbyn rhai ymholiadau am Flaenoriaeth g o *A Framework for Action* - Defnyddio ein Adnoddau'n Effeithiol - gan y Cyfarfod Dioddefiadau. Rydym yn cyfeirio'r ymholiadau hyn at ein hymddiriedolwyr gan ofyn iddynt anfon ymateb i'r ymholiadau ar ein rhan erbyn 20 Mai.

2010.14 Cytûn

Mae Catherine James wedi rhoi'r diweddaraf o gyfarfod Cytûn 26 Chwefror. Erbyn hyn, mae Grŵp Galluogi, i ddod â grwpiau lleol Cytûn at ei gilydd. Cafwyd llawer o drafodaeth am undod - byddwn yn gwneud y pethau gyda'n gilydd y gallwn eu gwneud gyda'n gilydd a dim ond y pethau na ellir eu gwneud gyda'n gilydd y byddwn yn eu gwneud ar wahân. Cynhaliwyd Cyfarfod Bwrdd Cytûn yn ystod y prynhawn, a dywedodd Catherine wrthym am y Pwyllgor ar gyfer Gwaith Rhyngwladol, sy'n gweithio yn Syria a Libanus a bydd yn mynd allan yno eto ym mis Ebrill.

Mae tyst Cytûn yn Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol. Hoffem gael help ychwanegol yn yr Urdd ac yn y Sioe Frenhinol.

Gwneir Datganiad Croeso ac Ymrwymiad Eciwmenaidd mewn rhai eglwysi a bydd gennym gyfle i feddwl am hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

2010.15 Adroddiad Eiriolwyr dros Waith â Phlant a Phobl Ifainc

Mae Kate Binney wedi rhoi adroddiad i ni am waith yr Eiriolwyr. Mae Kate yn cefnogi'r Eiriolwyr yng Nghymru ac yn dod â nhw ynghyd i gefnogi ei gilydd. Rydym yn annog yr Eiriolwyr yn y gwaith a wneir ganddynt, ac rydym yn diolch i Kate am ei hadroddiad.

2010.15 Dod yn Gyfeillion

Mae Lizz Roe wedi cyflwyno *Becoming Friends* i ni, prosiect *Quaker Life/Woodbrooke* sy'n anelu at helpu'r rheini sy'n newydd i Grynwriaeth i ystyried yr agweddau lu ar Grynwriaeth, gyda help cydymaith/mentor.

Ymdrinnir â thair agwedd:
a) Beth sy'n arbennig am y Crynwyr?
b) Helpu newydd-ddyfodiaid i ddarganfod mwy am Siwrnai'r Crynwyr, Ffordd y Crynwyr ac
c) Sut i ddwysáu ein siwrnai ysbrydol.
Mae wyth pwnc yn y pecyn dysgu, pob un yn cynnwys gweithgareddau gwahanol ac yn cwmpasu'r tair agwedd.

Mae pob newydd-ddyfodiad yn dod i'r Cwrdd gyda hanes gwahanol a fwy na thebyg, mae'n chwilio am gyfeillach a help ar ei siwrnai ysbrydol.

Buom yn ymarfer y syniad o fod yn gydymaith gyda fersiwn o'r Gêm Ffiniau ac yn trafod y syniadau a gododd o hyn.

Mae Lizz yn mynd i ymchwilio i gael y pecyn dysgu wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg.

Gallwn weld y bydd y rhan fwyaf o'r gefnogaeth i'r cynllun cyffrous hwn yn digwydd mewn cyrddau lleol. Bydd cyfarfodydd ardal yn cefnogi cyfarfodydd lleol. Ond gallai fod rôl i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wrth gefnogi'r rheini sy'n dymuno cael cydymaith sy'n medru'r Gymraeg.

Rydym yn annog yr holl Gyfeillion i daenu'r gair am y pecyn dysgu a'r ffordd y gallem gefnogi'r holl Gyfeillion mewn Cyrddau i ddwysáu a rhannu eu bywyd ysbrydol.

Rydym yn annog cyrddau lleol a chyfarfodydd ardal i hysbysu clercod Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ynglŷn â Chyfeillion sy'n fodlon gweithredu fel cymdeithion.

Mae *Becoming Friends* ar gael ar-lein neu ar ffurf brintiedig [gan www.woodbrooke.org.uk <http://www.woodbrooke.org.uk>] ac mae hyfforddiant ar gyfer cymdeithion ar gael yn Woodbrooke ac ym Mhlas Swarthmoor.

Rydym yn diolch i Lizz am rannu hyn â ni.

Deborah Rowlands
Julia Aspden Cyd-glercod